Emma Wools
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

3 Awst 2026

# Ymateb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i adroddiad HMICFRS: *'An Inspection of the Southern Wales Regional Response to Serious and Organised Crime'*

## Cyflwyniad

Rwy'n croesawu cyhoeddi adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar ymateb rhanbarthol de Cymru i droseddau difrifol a chyfundrefnol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2026. Mae'r adroddiad yn ystyried perfformiad Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Tarian a'r 3 heddlu yn rhanbarth de Cymru, gan gynnwys Heddlu De Cymru.

Rwy'n falch bod yr Arolygiaeth wedi dyfarnu Tarian a Heddlu De Cymru yn 'Dda' wrth fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Rwy'n nodi nad oes unrhyw argymhellion nac 'Achosion o Bryder' wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae dau o 'Feysydd i'w Gwella' wedi'u cynnwys ar gyfer yr ymateb rhanbarthol i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Rwy'n falch na ddyrannwyd unrhyw 'Feysydd i'w Gwella' yn benodol i Heddlu De Cymru, ac mae'r adroddiad yn tynnu sylw at weithgarwch cadarnhaol sydd ar waith yn yr heddlu.

## Meysydd i'w Gwella

Y Meysydd i'w Gwella ar gyfer yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol yw:

*1: Dylai Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Tarian a'r heddluoedd sy'n rhan ohono wella sut mae'r rhanbarth yn caffael ac yn defnyddio offer cuddwylio technegol*

*2. Mae angen i Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Tarian a'r heddluoedd sy'n rhan ohoni wella sut mae bygythiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cael eu nodi a'u hasesu*

## Goruchwylio

Mae fy Nghynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder yn cynnwys 5 maes blaenoriaeth, gan gynnwys blaenoriaethau ynghylch 'Atal Troseddu a Lleihau Trais' a 'Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein'. Mae'r ddwy flaenoriaeth yn gwneud yn glir fy ymrwymiad i'r materion a drafodir yn yr arolygiad hwn, gan gynnwys fy amcan i 'gefnogi targedu a tharfu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol'. Mae fy Nghynllun yn canolbwyntio'n glir ar gydweithio, gan gydnabod y gall Heddlu De Cymru gyflawni mwy mewn partneriaeth â heddluoedd ac asiantaethau eraill. Rwy'n croesawu canfyddiadau

cadarnhaol yr adroddiad mewn perthynas â gwaith Tarian, gan nodi'r meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau.

Mae fy nghynllun yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r dull 'Clirio, Dal, Adeiladu' o fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol, ac roeddwn yn falch o weld bod yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod y dull hwn yn gweithio'n dda yn ne Cymru. Mae ein Huned Atal a Lleihau Trais, dan arweiniad fy Swyddfa, hefyd yn gweithio gyda'r heddlu a nifer o bartneriaid i fynd i'r afael â'r bygythiadau parhaus a rhai sy'n dod i'r amlwg o ran troseddau difrifol a chyfundrefnol.

Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i amddiffyn y cyhoedd rhag y niwed cynyddol sy'n bodoli yn ein cymunedau. Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fygythiad sylweddol i'r heddlu, ac rwy'n cefnogi Heddlu De Cymru yn ei ymdrechion i fynd i'r afael ag ef, wrth ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni.

Byddaf yn sicrhau bod y Meysydd i'w Gwella yn yr adroddiad yn cael eu trafod â'r Prif Gwnstabl a'i swyddogion, ac fy mod yn ceisio sicrwydd bod Heddlu De Cymru yn gweithio i'w cyflawni mewn partneriaeth â'r ddau heddlu arall yn Tarian. Byddaf yn gwneud y rhain drwy fy rhaglen graffu a llywodraethiant, ac rwyf eisoes yn ymwybodol o weithgarwch cadarnhaol sydd ar waith.

Yn ogystal â cheisio sicrwydd ar unwaith bod y Meysydd i'w Gwella yn cael eu hystyried yn Heddlu De Cymru, byddaf yn cynnal arolygiad craffu o 'Wyddoniaeth a Thechnoleg' Heddlu De Cymru yn gynnar yn 2027. Mae'r arolygiad hwn wedi'i drefnu yn fy rhaglen graffu flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, felly byddaf yn cael cyfle i gynnwys rhai o'r materion yn yr adroddiad hwn, megis defnyddio offer cuddwylio technegol i wella atal a chanfod troseddu.

**Arferion Cadarnhaol**

Rwy'n falch bod yr adroddiad wedi tynnu sylw at y gwaith cadarnhaol a rhagweithiol yn Heddlu De Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o droseddu difrifol a chyfundrefnol yn yr ardal, ac mae'n ei flaenoriaethu.
- Mae gan yr heddlu ddigon o gapasiti a gallu i fynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol
- Mae gan yr heddlu gapasiti a gallu dadansoddol da mewn perthynas â throseddu difrifol a chyfundrefnol
- Mae'r heddlu yn canolbwyntio ar darfu ar droseddu difrifol a chyfundrefnol, gan nodi'r cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o darfu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae'r heddlu yn mynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol mewn carchardai ac yn rheoli troseddwyr yn effeithiol.

Ty Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: comisiynydddecymru.org.uk

Ty Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
p: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Emma Wools
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Rwy'n gwybod bod y Prif Gwnstabl yn ymroddedig i fynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol ac yn rhannu fy ymrwymiad i atal troseddu. Rwy'n hyderus y bydd yn gweithio i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd a byddaf yn parhau i oruchwylio'r gweithgarwch hwn.

**Emma Wools**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Ty Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: comisiynydddecymru.org.uk

Ty Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
p: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn eich iaith o ddewis.
The Commissioner and her team welcome correspondence in Welsh and English. We will respond in your language of choice